Rydym ni angen dangos ffyrdd y gellir defnyddio technoleg bresennol i ddatrys problemau cyfredol. Gellir defnyddio technoleg sydd eisoes yn bodoli er mwyn helpu gyda'r newid yn yr hinsawdd ac er mwyn gwneud bywyd yn haws i bobl anabl, ond dyw gweithgynhyrchwyr ddim bob amser yn gwybod am dechnolegau newydd.

Ewch ati i ddylunio ac adeiladu teclyn arddangos sy'n gludadwy ac yn fodel gweithio, y gellir ei gludo i ddigwyddiadau er mwyn arddangos datblygiadau ym maes technoleg beirianyddol.

Gallai enghreifftiau gynnwys model o dŷ sy'n defnyddio ynni'r haul/gwynt, neu ddyfais fyddai'n gwneud bywyd yn haws i unigolyn anabl.

Tîm 54

Ysgol Gyfun Gŵyr
ac Eddyfi Technologies

System Ailgylchu Dŵr ar gyfer ein System Stiliwr Uwchsain

Tîm: Molly Anderson-Thomas
Matthew Brown
George Cawsey
Lewis Jones
Mirian Lloyd
Dafydd Mills
William Morris
Finlay Richards

Athro: Alun Rennolf

Cysylltiadau'r cwmni: Neil Pearson

Mae gan Eddyfi UK Ltd (EFI) 30 mlynedd a mwy o brofiad ym maes dylunio, datblygu, gweithgynhyrchu a gwerthu cyfarpar archwilio uwch ar gyfer cynnal profion anninistriol sy'n canolbwyntio ar ganfod, lleoli a nodi nodweddion mecanwaith diffygiol sy'n digwydd mewn pob mathau o strwythurau metelig.

Mae archwiliadau Uwchsain (UT) yn ddull sydd wedi hen ennill ei blwyf ar gyfer lleoli diffygion strwythurol mewn strwythurau fel piblinellau ac ar awyrennau a llongau. Wrth archwilio, defnyddir tonau uwchsain i bennu cyflwr y strwythur sy'n cael eu trosglwyddo drwy gyfrwng cyswllt fel dŵr neu gel er mwyn gorfodi cymaint â phosibl o'r ynni sain i mewn i'r deunydd sy'n cael ei archwilio. Caiff dŵr ei gyflenwi'n barhaus dan y stiliwr er mwyn llenwi'r bwlch (sy'n amrywio) yn yr arwyneb rhwng wyneb y stiliwr a'r arwyneb, ac mae'n ofynnol cael cryn dipyn o ddŵr wrth archwilio gwrthrychau mawr fel tanciau storio neu biblinellau. Er mwyn lleihau faint o ddŵr a ddefnyddir ac er mwyn helpu gydag archwiliadau mewn lleoliadau ynysig fel yr anialwch, byddai'r gallu i ailgylchu'r dŵr o fudd mawr.

Dyfeisiwch brototeip gweithio o system ailgylchu dŵr i'w ddefnyddio ar y peiriant Sganiwr Symudiadau Cyflym (RMS) a ddatblygwyd gan Eddyfi Technologies.

Bro Morgannwg

Tîm 55

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryntawe
a Phrifysgol Abertawe – Peirianeg
Drydanol

Bwrdd Sgorio Marchogol Electronig Pwrpasol

Tîm: Elisha Davies
Jacob Davies-Hannen
Ruari Gunnenberg
Aaliyah Jaynes
Cameron Jenkins
Ben Lumber
Aled Miller
Luke Willett

Athro: Rhys Havard

Cysylltiadau'r
cwmni: Rhiannon Kingsley, Dr Timothy
Davies a David Moody

Mae canolfan farchogaeth yn Llandeilo, Sir Gâr wedi gwneud cais i'r brifysgol ddylunio bwrdd sgorio ar gyfer digwyddiadau marchogaeth. Mae'r ganolfan angen sgrin y gellir ei ddarllen yng ngolau dydd ac y gellir yn ddelfrydol ei gysylltu â chyfrifiadur neu ryngwyneb arall fel y gall y defnyddiwr gofnodi gwybodaeth am y sgôr sy'n ymddangos ar y sgrin.

Rydym ni'n argymhell ymchwilio i'r defnydd o baneli matrices LED mawr 32 x 64 picselel y gellir eu pentyrru ar eu hochr a benben i greu arddangosfeydd mwy. Gan gychwyn gydag un panel, bydd angen rheoli'r bwrdd arddangos gan ddefnyddio rheolydd micro, fel Raspberry Pi neu Arduino, gan ddibynnu ar arbenigedd y tîm.

Bydd angen cael rhyngwyneb er mwyn cofnodi'r wybodaeth hon, a allai fod yn fath o bad gyda botymau, neu'n ddelfrydol, dylid cael y micro i "siarad" â'r Cyfrifiadur Personol.

Yn gyntaf, dylech asesu beth yw'r gofynion drwy siarad â'r cwsmer er mwyn canfod ei anghenion.

Unwaith rydych chi wedi cytuno ar y gofynion, ewch ati i amlinellu'r ateb gan ymchwilio i'r paneli sydd ar gael ar y farchnad ar hyn o bryd ac unrhyw brosiectau enghreifftiol tebyg.

Tîm 56

Ysgol Uwchradd Whitmore
a Morgan Sindall

Lleihau Ôl Troed Carbon a Lleihau Ynni Cyffredinol Llety Safleoedd Dros Dro

Tîm: Thomas Froud
Reuben Hopkin
Caitlin Meadows
Owen Smith
Bethan Thomas
Ellis Young

Athro: Dale Gamble

Cysylltiadau'r
cwmni: Steve Langford, Steven Birchenough
a Michael Little

Mae Morgan Sindall yn gwmni adeiladu mawr gyda phrosiectau ar hyd a lled y DU. Rydym ni'n ymwneud yn helaeth â'r rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif yng Nghymru.

Rydym ni angen canfod ffordd o wella perfformiad cyffredinol llety safleoedd dros dro mewn perthynas ag effaith amgylcheddol a pherfformiad ynni yr adeiladau hyn.

Ystyriwch yr holl agweddau ar yr adeilad fel y defnydd o ddŵr, dull storio, gwresogi, goleuo, insiwleiddio a deunyddiau adeiladu.

Pan fyddwch chi wedi penderfynu ar y prosiect, byddwn ni'n ymwneud â'r penseiri a'r peirianyddion arbenigol fel y gallan nhw gyfrannu at y cynllun.

Y Gogledd

Conwy

Tîm 1

Ysgol Bryn Elian 1
a Lubrizol Mostyn

Newid Pympiâu Dadlwytho Tancer Ffordd

Tîm: Aaron Jones
Owen Jones
Troy Kettle
Finn O'Sullivan
Katie Roberts

Athro: Neil Humphreys

Cysylltiadau'r cwmni: Kevin Hirst

Mae Lubrizol Mostyn yn geffyl blaen yn fyd-eang yn y gwaith o weithgynhyrchu TAED a chyflenwi'r diwydiannau glanedyddion a bioladdwyr.

Danfonir dau o'n deunyddiau crai i'n safleoedd mewn swmp-dancer ffordd ac fe'u trosglwyddir wedyn i swmp-danciau. Yn y gorffennol, gosodwyd dau bwmp, un fel pwmp gweithredu, a'r llall fel pwmp wrth gefn. Bydd y pypmpiau'n cael eu newid gan eu bod nhw wedi cael eu gosod 25 mlynedd a mwy yn ôl a bod yna broblemau wedi codi o ran dibynadwyedd y pypmpiau. Hefyd, mae Gweithredwyr y Fferm Danciau yn adrodd bod angen iddyn nhw redeg y ddau bwmp er mwyn dadlwytho tancer mewn cyfnod rhesymol o amser ac fe hoffen nhw allu pwmpio'r pibwaith nes ei fod yn sych er mwyn cael cyn lleied o ollyngiadau â phosibl wrth ddatgysylltu'r tancer.

Ewch ati i ddatblygu dogfen brosiect sy'n ystyried y dewisiadau sydd ar gael a chynnig, gyda pheth manylder, y math o bwmp y dylid ei ddewis, y gofynion yn cynnwys maint, y deunyddiau a ddefnyddir, trefniadau selio'r pwmp, manylion gosod, gofynion trydanol, gofynion cynnal a chadw ac unrhyw nodweddion diogelwch, er mwyn sicrhau bod y pwmp yn cael ei osod yn unol ag arferion gorau a'i fod yn gweithredu'n ddibynadwy am o leiaf 10 mlynedd.

Dylech ystyried defnyddio pypmpiau Anhydride Asetig yn unig. Dylai'r tîm ystyried diogelwch, dibynadwyedd a chost. Trefnwyd i'r pypmpiau gael eu newid y flwyddyn nesaf a bydd y wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i'n helpu yn ein proses o wneud penderfyniadau.

Tîm 2

Ysgol Bryn Elian 2
a KnitMesh

System Cyfrif Rhwyll

Tîm: Adam Arshad
Chloe Newton
Adrian Scarsbrook-Roberts
Jaiden Thomas

Athro: Neil Humphreys

Cysylltiadau'r cwmni: Peter Evans ac Aled Williams

Mae KnitMesh Technologies yn un o wneuthurwyr cynhyrchion rhwyll pleth mwyaf blaenllaw y DU. Caiff y rhwyllau eu dylunio a'u datblygu ar gyfer amrywiaeth eang o sectorau fel y diwydiannau modur, awyrafod, telathrebu a milwrol.

Cynhyrchir rhwyllau pleth o fetelau amrywiol neu o ddeunyddiau mwynol a synthetig sy'n cael eu prosesu i greu strwythur o ddolennau sydd wedi'u plethu gyda'i gilydd.

Ar hyn o bryd mae angen gwirio â llaw unrhyw wasieri rhwyllau gwifrog gan fod angen iddyn nhw fod o faint penodol. Dim ond dimensiynau manwl-gywir sy'n dderbyniol. Mae angen system gyflym, ddibynadwy er mwyn gwella effeithlonrwydd.

Tîm 3

Ysgol Dyffryn Conwy 1
ac Airbus UK, Brychdyn

Dull Tynnu Hoelbrennau

Tîm: Jack Carus-Davies
Iolyn Chennell
Jacob Griffiths
Toby Laurie
James Martin
Sion Sullivan
Elgan Williams

Athro: Penri Jones

Cysylltiadau'r cwmni: Joanne Murray, Emily Merrison,
Richard Williams, Amani Kausar ac
Oliver Aldridge

Mae ardal Brychdyn yn ymfalchïo yn ei thraddodiad yn y maes gweithgynhyrchu awyrofod sy'n dyddio'n ôl tri chwarter canrif bron. Erbyn hyn, mae'r safle'n cyd-osod adenydd awyrennau ar gyfer teulu awyrennau masnachol Airbus.

Wrth dynnu'r hoelbrennau a ddefnyddir i ddal croen yr adenydd i asennau (ffrâm) yr adenydd, gall y morthwyl a ddefnyddir ddifrodi'r croen alwminiwm a'r twll gwrthsoddi. Mae angen ei drwsio sy'n golygu amser a chost ychwanegol. Gallai leihau hyd gwasanaeth yr awyren hefyd.

Ewch ati i ddylunio ac adeiladu (os gallwch chi wneud hynny) cyfarpar a fyddai'n sicrhau y gellir tynnu'r hoelbrennau heb y risg o ddifrodi'r tyllau gwrthsoddi alwminiwm.

Gellir cyflwyno unrhyw syniad/ateb, cyn belled â bod unrhyw benderfyniadau dros wneud hynny'n cael eu cyfiawnhau'n llwyr. Mae yna gyfyngiadau cost i'r dyluniad a gynigir.

Tîm 4

Ysgol Dyffryn Conwy 2
a TATA Steel, Shotton

Rig Caset y Lefelwr

Tîm: Matthew Cawley
Mali Evans
Jack Hardy
Nellija Pelite
Mari Roberts
Susam Tezgel
Lochlan Watson

Athro: Penri Jones

Cysylltiadau'r cwmni: Julie Baddock a Hamza Abbas

Mae TATA Steel yn gweithgynhyrchu dalenni dur plât ar gyfer cwmnïau ar eu safle yn Shotton.

Mae'r llinell gynhyrchu'n cynnwys lefelwyr tensiwn, a'u diben yw lefelu a gwella pa mor wastad yw'r sribedi dur. Bydd y prosiect yn canolbwyntio ar y lefelwr tensiwn sydd ar ein llinell galfaneiddio sy'n ymgorffori adran gwrth-gromlin, a'i ddiben, fel y mae'r enw'n awgrymu, yw cadw'r stribed yn fflat ac yn rhydd o unrhyw anffurfiadau.

Gyda newydd-ddyfodiaid yn dod i mewn i'r busnes ac yn gweithio ar broses y llinell, maen nhw wedi codi pryderon ynglŷn ag un o'r pedwar casét sy'n gorfod cael ei osod ar y stand wyneb i waered sy'n gwneud unrhyw waith cynnal a chadw yn anodd.

Ar hyn o bryd, caiff y casetiau eu troi pan fydd y rholiau gwaith yn cael eu newid neu wrth wneud gwaith cynnal a chadw a defnyddir sling neu estyll pren ar gyfer y broses hon, sy'n golygu bod gweithwyr yn agored i beryglon posibl (offer yn cau am y bysedd/perylg o wasgu).

Ewch ati i ddylunio ac adeiladu rig ar gyfer cyflawni'r gwaith hwn lle mae'r ffactor risg yn llawer is. Does dim cyfyngiadau o ran y deunyddiau y cewch chi eu defnyddio i adeiladu'r rig. Ond mae yna gyfyngiadau cost i'r dyluniad a gynigir.

Sir Ddinbych

Tîm 5

Ysgol Eirias
a Phrifysgol Bangor

Delweddu Data Presenoldeb Myfyrwyr

Tîm: Matthew Browne
Joshua Hall
George Houghton-Mari
Aedan Jones

Athro: Mike Hodges

Cysylltiadau'r cwmni: Cameron Gray

Hoffai'r Ysgol Cyfrifiadureg a Pheirianeg Electronig ym Mhrifysgol Bangor gychwyn dadansoddi data ar bresenoldeb myfyrwyr a gynhyrchir ar system cofrestru electronig.

Y briff/dasg a'r gofynion dylunio:

Dylai tîm y prosiect ymchwilio i'r gwaith dadansoddi posibl y gellir ei wneud, ac yna dylunio dull er mwyn cyfathrebu'n weledol canlyniadau'r gwaith dadansoddi.

Hoffem gael yr allbynnau canlynol:

- y gyfres o ddisgrifiadau ar gyfer y data a ddefnyddiwyd.
- y cwestiwn sy'n cael ei ysgogi gan ddata rydych chi wedi penderfynu ei ateb.
- manylion y dulliau a ddefnyddiwyd i brosesu a/neu grynhoi'r data.
- y broses ddylunio sydd wedi eich arwain at eich fersiwn derfynol.
- y cod ar gyfer y delweddu.

Tîm 6

Ysgol Glan Clwyd
a Qioptiq

System Awtomatig i alinio a chysylltu lens fanwl i gasin

Tîm: Jay Almond
Dewi Davies
Owain Jones
Daniel Mason-Jones
Rhydian Roberts
Owen Tadgell
Robert White
Matthew Yeomans

Athro: David Williams

Cysylltiadau'r cwmni: Erin Cooper a James Alexander

Mae Qioptiq yn dylunio a gweithgynhyrchu cynhyrchion ac atebion ffotonig sy'n gwasanaethu amrywiaeth eang o farchnadoedd a rhaglenni ym meysydd meddygaeth, gwyddor bywyd, gweithgynhyrchu diwydiannol, amddiffyn ac awyrfod, a gwaith ymchwil a datblygu.

Ewch ati i gynhyrchu system awtomatig a dibynadwy a fydd yn alinio a chysylltu lens fanwl i gasin mewn dull ailadroddus. Mae hon yn broses llinell gynhyrchu felly mae'n rhaid iddi fod yn gwbl gywir ac mae'n rhaid cyflawni'r broses mewn cyn lleied o amser â phosibl.

Bydd lens gyfeirio yn taflu'r ddelwedd o graticwl croeslin wedi'i oleuo i gamera. Bydd y camera yn mesur safle a chylchdro'r croeslin. Yna bydd ail lens newydd yn cael ei osod o flaen y camera ond bydd y craticwl dan sylw yn un y gellir ei addasu. Y nod yw creu mecanwaith er mwyn addasu safle a chylchdro'r craticwl hwn er mwyn ei wneud yr un fath â'r lens gyfeirio. Ar ôl iddo gael ei addasu, bydd y craticwl wedi'i gysylltu'n gadarn â'r lens heb amharu ar ei safle.

Mae'r broses yn cynrychioli'r gallu i gyd-osod sawl lens o swp o gydrannau a dylid gosod pob un i gyd-fynd â'r lens cyfeirio.

Sir y Fflint

Tîm 7

Ysgol Uwchradd Prestatyn a WSP UK

Lleihau Allyriadau CO2 o Concrit

Tîm: Jac Armstrong
Jamie Barson
Amelia Buckley-Scott
Mashiat Manzoor
Daniel North
Celyn Sammons

Athro: Penny North

Cysylltiadau'r cwmni: Mike Wellington

Mae WSP yn gwmni peirianeg byd-eang gyda 60 a mwy o swyddfeydd yn y DU ac mae swyddfa Wrecsam yn cefnogi Ysgol Uwchradd Prestatyn yn yr her EESW hon. Maen nhw'n canolbwyntio'n bennaf ar brosiectau peirianeg sifil, gan ddarparu gwasanaeth ymgynghori ar yr amgylchedd adeiledig a seilwaith.

Concrit yw'r deunydd a ddefnyddir mwyaf yn y byd. Fe'i defnyddir i raddau mor helaeth oherwydd ei fod yn ddeunydd adeiladu mor ddibynadwy - ac mae concrit Rhufeinig yn dystiolaeth o hyn, gan ei fod yn bodoli ers 2000 a mwy o flynyddoedd ac yn dal i sefyll. Fodd bynnag, mae'r gwaith o gynhyrchu, cludo a thrin concrit yn cynhyrchu llawer iawn o garbon deuocsid, sydd wrth gwrs yn nwy tŷ gwydr niweidiol, sy'n cyfrannu at y newid yn yr hinsawdd ac effeithiau anthropogenig eraill ar yr amgylchedd.

Mae'n bosibl bod yr ateb yn ddamcaniaethol, neu'n fodel neu'n brototeip. Gall y broses o wneud concrit yn y labordy a chynnal profion arno mewn labordai fod yn un dewis i'w ystyried ac yn gyfle i drafod cyfansoddiadau gwahanol a chryfderau tynol.

Tîm 8

Ysgol Alun 1 a Phrifysgol Bangor – Ysgol Gwyddorau Meddygol

Pa mor ddiogel yw salad a llysiau mewn archfarchnadoedd sydd mewn bagiau ac wedi'u golchi ymlaen llaw?

Tîm: Hannah Barnard
Lucy Brennan
Megan Griffiths
Will Lorenz
Alice Tilley

Athro: Sarah Davies

Cysylltiadau'r cwmni: Gwyndaf Roberts, Helena Robinson
a Alyson Moyes

Mae'r Ysgol Gwyddorau Meddygol yn ganolbwynt addysg ac ymchwil meddygol ym Mhrifysgol Bangor. Mae gan yr Ysgol Gwyddorau Meddygol gysylltiadau agos â'r labordai gwyddoniaeth biofeddygol lleol.

Mae cynnyrch a werthir mewn bagiau sydd wedi'i olchi ymlaen llaw yn ddewis poblogaidd i gogyddion amatur prysur. Ond mae'r ddelwedd o ddail salad ffres yn cael eu golchi mewn dŵr ffynnon pefriog yn bell iawn o realiti'r baddonau golchi diwydiannol sy'n cynnwys toddiant clorin, sy'n cael ei newid unwaith y dydd o bosibl. Ym mis Gorffennaf 2016, fe wnaeth achos o E. coli, y credir iddo fod yn gysylltiedig â salad wedi'i lygru, ladd dau o bobl a bu'n rhaid i 62 o bobl eraill dreulio cyfnod mewn ysbyty.

Gall E. coli sydd ag ymwrthedd i wrthfotigau fynd i mewn i fflora cwbl iach coluddion unigolyn. Mae'r oeddrannus yn dueddol o gael haint y llwybr wrinol sy'n cael ei achosi gan fflora eu coluddion eu hunain. Fel arfer mae triniaeth yn cynnwys gwrthfotig sbectrwm eang, ond un canlyniad yw bod y bacteria sydd ag ymwrthedd i wrthfotigau yn gallu cyrraedd rhannau pellach o'r llwybr perffedol. Byddai unrhyw haint dilynol o'r llwybr wrinol yn debygol o gael ei achosi gan y bacteria sydd ag ymwrthedd a byddai'n anoddach i'w drin. Gall methu â gwneud hynny arwain at sepsis sy'n peryglu bywyd. Ymchwiliwch i raddau'r broblem hon gan ddefnyddio technegau microbiologol.

Tîm 9

Ysgol Alun 2
a JCB Transmissions, Wreccsam

Trosglwyddiadau JCB: Cydosod Blychau Trosglwyddo

Tîm: Celyn Bodey
Daniel Eames
Will Ellis
Callum Hallworth
Kavan Heppenstall
Lily Ruffer

Athro: Alison McLellan a Neil McBain

Cysylltiadau'r
cwmni: Julie Jones, Cameron Pemberton,
Harry Wheelera a Ben Williams

Sefydlwyd JCB ym 1945 yn Uttoxeter, Swydd Stafford mewn garej 12"x15" wedi'i rhentu gyda set weldio ail-law a stoc milwrol dros ben. Yma cychwynnodd y gwaith o wneud trelars tipio ar gyfer tractorau petrol y genhedlaeth newydd. Erbyn hyn mae JCB yn gwmni rhyngwladol, sy'n cyflogi 12,000 o bobl ar hyd a lled y byd, gan wneud 300 a mwy o gynhyrchion gwahanol.

Hyd yma yn 2019, mae 1.2 o 'Flychau Befel' ar gyfartaledd wedi gorfod cael eu taflu bob wythnos oherwydd methiannau wrth eu cyd-osod. Mae hyn yn golygu costau i'r cwmni o ran cynhyrchu'r cydrannau ac mae'n arafu'r llinell gynhyrchu hefyd. Mae ganddo effaith amgylcheddol hefyd, gan fod angen defnyddio ynni i gynhyrchu a chludo'r cydrannau.

Hoffai JCB Transmissions ei gwneud hi mor hawdd â phosibl i'r ffitwyr gyd-osod y gêrs tasg a cheisio cael gwared ar unrhyw achosion o gamgymeriadau dynol o'r broses adeiladu. Mae angen system awtomatig a system ddylunio ar y cwmni a fydd yn cynnwys yr holl gydrannau sydd eu hangen ar gyfer y gwaith adeiladu ac ar gyfer y broses gyfan.

Dyma'r gofynion dylunio: dull storio diogel ar gyfer yr holl gydrannau angenrheidiol, system ar gyfer hysbysu'r ffitiwr o'r drefn ar gyfer gosod, system hwylus sy'n hawdd ei defnyddio a system ar gyfer canfod os yw'r darn anghywir wedi'i ddewis.

Tîm 10

Canolfan Chweched Dosbarth Coleg
Cambria Glannau Dyfrdwy ac UPM,
Shotton

Dylunio Bar Cawod VHP

Tîm: Rhys Bowen
Tea Bullock
Rowan Davidson
Joshua Gardiner
Jeswin George
Morgan Lee
Larissa Martin

Athro: Faye Wallace

Cysylltiadau'r
cwmni: Gez Williams, Dave Clancy
a Jan Ellis

Mae UPM Shotton yn felin bapur sy'n cynhyrchu papur newydd allan o ffibr 100% ailgylchadwy (y cyfan yn deillio o'r DU) ac mae'n defnyddio hyd at 80% o ynni adnewyddadwy

Mae'r bar cawod VHP cyfredol yn anodd ei wasanaethu, gan na ellir ei ddatgysylltu, ac mae'n anodd iawn ei gyrraedd.

Ewch ati i ddylunio bar cawod VHP ar gyfer y ddolen weiar fewnol y gellir ei dynnu'n rhwydd ac mor gyflym â phosibl fel y gellir cynnal a chadw'r bar pan nad yw wedi'i gysylltu i'r peiriant. Bydd yn cael ei ddefnyddio yn lle trawst gwreiddiol y gawod sydd yn y peiriant ar hyn o bryd ac sy'n anodd ei gyrraedd ac yn anodd ei gynnal a'i gadw.

Tîm 11

Ysgol Uwchradd Cei Connah ac Airbus UK

Dull Tynnu The Slave

Tîm: Marika Habrat
Hana Kalivodova
Olivia O'Kane
Faith Ruby Randles
Olivia Smith
Hanna Szakacs

Athro: Chris Jennings

Cysylltiadau'r cwmni: Joanne Murray, Emily Merrison,
Richard Williams, Amani Kausar
ac Oliver Aldridge

Mae Airbus yn cynhyrchu awyrennau masnachol gan mwyaf. Ym Mrychdyn, maen nhw'n gweithgynhyrchu'r adenydd. Mae Airbus yn gweithgynhyrchu tua 1000 o adenydd y flwyddyn ar gyfartaledd. Er fod Airbus Brychdyn yn effeithlon dros ben, mae ganddyn nhw ôl groniad o archebion sy'n mynd yn ôl tua 8 mlynedd. Mae Airbus yn cynhyrchu awyrennau ar gyfer AirFrance, Lufthansa, Easy Jet a llawer mwy.

Mae'r broblem yn ymwneud â thynnu cydrannau penodol heb achosi difrod sylweddol i gorff yr awyren. Roedd Airbus yn tynnu'r slaves o banel haen allanol corff yr awyren gyda hoelbren (a gynhyrchir o ddur heb ei ddiogelu). O ganlyniad, pan fo dur ac alwminiwm yn cael eu gwahanu oddi wrth ei gilydd wedi iddyn nhw fod mewn cysylltiad, mae'n achosi tolciau, marciau a chrafiadau. Roedd yr offeryn yn difrodi'r tyllau gwrthsoddi ac yn eu gadael gyda siâp hanner lleuad, ac roedd y difrod hwn wedyn yn effeithio ar y ffordd roedd y rhybedi yn ffitio'n ddiogel i mewn i'r panel, felly roedd y broblem hon yn peri difrod costus i eiddo Airbus ac mae angen mynd i'r afael â'r mater.

Ewch ati i ganfod ateb er mwyn lleihau ac atal difrod rhag digwydd yn ystod y broses o dynnu garanau o'r twll gwrthsoddi ar haen allanol corff yr awyren. Mae ateb y tîm yn seiliedig ar bedwar dewis er mwyn tynnu'r garan yn ddiogel gan ddefnyddio amrywiaeth eang o ddeunyddiau rhad ond effeithiol.

Tîm 12

Ysgol Uwchradd Penarlâg a Raytheon

Sliperi Amddiffynnol ar gyfer Awyrennau

Tîm: Daniel Astbury
Keely Burns
Charlie Ellis
Abby Latham
Abigail Richards
Macey Taylor

Athro: Mark Kenny

Cysylltiadau'r cwmni: Laurence Baron

Mae Raytheon UK yn un o is-gwmnïau Raytheon Company. Rydym ni'n un o brif gontractwyr a phrif gyflenwyr Gweinyddiaeth Amddiffyn y DU ac rydym ni wedi datblygu gallu sylweddol yn y broses o integreiddio systemau cyrchoedd ym meysydd amddiffyn, diogelwch Cenedlaethol a Seibr a marchnadoedd masnachol. Mae Raytheon UK yn dylunio, datblygu a gweithgynhyrchu amrywiaeth o systemau electronig technoleg uwch ac yn canfod atebion ar ffurf meddalwedd yn ei gyfleusterau. Mae addasiadau i Awyrennau Cyrchoedd Arbennig yn cael eu gwneud ym Mrychdyn.

Mae gan awyrennau lawer iawn o ymylon miniog a rhannau sy'n sticio allan ar y tu allan ac ar y tu mewn ar brydiau. Pan fo'r awyrennau ar y ddaear, yn enwedig yn ystod gwaith cynnal a chadw ac yn ystod gwaith addasu, gall gweithwyr fwrw i mewn i'r nodweddion hyn gan achosi niwed i'r gweithiwr a difrod i'r awyren.

Dyluniwch 'sliperi' amddiffynnol y gellir eu gosod dros y rhannau amrywiol hyn ac y gellir eu gosod a'u tynnu'n rhwydd, ac sydd mewn lliw amlwg (coch fel arfer) fel eu bod yn amlwg a ddim yn cael eu gadael ar ôl. Mae'n rhaid defnyddio deunyddiau meddal sy'n ecogyfeillgar, sy'n gryf, sy'n para'n hir, sy'n diogelu rhag tân (at ddefnydd mewnol) ac sy'n gallu gwrthsefyll y tywydd.

Gwynedd

Tîm 13

Coleg Meirion Dwyfor, Dolgellau 1
a **Dŵr** Cymru

Arddangosfa bwrdd o Dyrbin Dŵr a Generadur

Tîm: Cai Jennings
Daniel Owen
Tomos Roberts
Amber Lillian Selby

Athro: Suzi Slaney

Cysylltiadau'r cwmni: Andrew Dixon a Huw Scourfield

Drwy osod tyrbinau ar argaeau a mewnfeydd gweithfeydd trin dŵr, mae Dŵr Cymru wedi cymryd camau breision yn ddiweddar drwy osod cynhyrchwyr dosbarthu lleol o fewn eu rhwydwaith cyflenwad dŵr. Rydym ni'n deall egwyddorion sylfaenol ynni mecanyddol ac allbwn creu trydan ers tro byd, ond prin fu'r modelau enghreifftiol addas.

Ewch ati, gan ddefnyddio egwyddorion sylfaenol, i ddylunio model bwrdd o dyrbin dŵr a generadur, sy'n addas i'w gysylltu â chyflenwad dŵr domestig. Mae'n rhaid iddo gael y nodweddion canlynol:

- Falf mewnfafa ar ffurf botwm y gellir ei bwysu sy'n ddibynnol ar amser
- Yn addas ar gyfer pwysau dŵr o 3 BarG, gyda llif o tua 5 litr y funud ar y mwyaf
- Bydd y tyrbina yn un ysgogiad gyda jet a bwcedi sy'n cylchdroi, ac wedi'i adeiladu'n bennaf o blastig neu berspecs
- Yn gysylltiedig â generadur DC foltedd isel gyda llwyth addas (lamp neu ryweth tebyg). Caniateir defnyddio generadur oddi ar y silff, neu gellir defnyddio motor o fath DC ar gyfer hyn.
- Bydd ganddo allanfa ar gyfer y dŵr sy'n llifo'n rhwydd sy'n addas er mwyn sicrhau y gellir casglu a mesur yr holl hylif.

Tîm 14

Coleg Meirion Dwyfor, Dolgellau 2
a **Dŵr** Cymru

Arddangosfa bwrdd o Dyrbin Dŵr a Generadur

Tîm: Owain Evans
Oliver Redman
Robat Rees
Cai Roberts
Tommy Wilkes

Athro: Suzi Slaney

Cysylltiadau'r cwmni: Andrew Dixon a Huw Scourfield

Drwy osod tyrbinau ar argaeau a mewnfeydd gweithfeydd trin dŵr, mae Dŵr Cymru wedi cymryd camau breision yn ddiweddar drwy osod cynhyrchwyr dosbarthu lleol o fewn eu rhwydwaith cyflenwad dŵr. Rydym ni'n deall egwyddorion sylfaenol ynni mecanyddol ac allbwn creu trydan ers tro byd, ond prin fu'r modelau enghreifftiol addas.

Ewch ati, gan ddefnyddio egwyddorion sylfaenol, i ddylunio model bwrdd o dyrbin dŵr a generadur, sy'n addas i'w gysylltu â chyflenwad dŵr domestig. Mae'n rhaid iddo gael y nodweddion canlynol:

- Falf mewnfafa ar ffurf botwm y gellir ei bwysu sy'n ddibynnol ar amser
- Yn addas ar gyfer pwysau dŵr o 3 BarG, gyda llif o tua 5 litr y funud ar y mwyaf
- Bydd y tyrbina yn un ysgogiad gyda jet a bwcedi sy'n cylchdroi, ac wedi'i adeiladu'n bennaf o blastig neu berspecs
- Yn gysylltiedig â generadur DC foltedd isel gyda llwyth addas (lamp neu ryweth tebyg). Caniateir defnyddio generadur oddi ar y silff, neu gellir defnyddio motor o fath DC ar gyfer hyn.
- Bydd ganddo allanfa ar gyfer y dŵr sy'n llifo'n rhwydd sy'n addas er mwyn sicrhau y gellir casglu a mesur yr holl hylif.

Tîm 15

Coleg Meirion Dwyfor, Pwllheli 1
a **Dŵr Cymru**

Arddangosfa bwrdd o Dyrbin Dŵr a Generadur

Tîm: Dylan Lloyd Jones
Aaron Lancelay
Tom Wyn Lewis
Osian Morgan
Tomos Williams

Athro: Suzi Slaney

Cysylltiadau'r cwmni: Andrew Dixon a Huw Scourfield

Drwy osod tyrbinau ar argaeau a mewnfeydd gweithfeydd trin dŵr, mae Dŵr Cymru wedi cymryd camau breision yn ddiweddar drwy osod cynhyrchwyr dosbarthu lleol o fewn eu rhwydwaith cyflenwad dŵr. Rydym ni'n deall egwyddorion sylfaenol ynni mecanyddol ac allbwn creu trydan ers tro byd, ond prin fu'r modelau enghreifftiol addas.

Ewch ati, gan ddefnyddio egwyddorion sylfaenol, i ddylunio model bwrdd o dyrbin dŵr a generadur, sy'n addas i'w gysylltu â chyflenwad dŵr domestig. Mae'n rhaid iddo gael y nodweddion canlynol:

- Falf mewnfafa ar ffurf botwm y gellir ei bwysu sy'n ddibynnol ar amser
- Yn addas ar gyfer pwysau dŵr o 3 BarG, gyda llif o tua 5 litr y funud ar y mwyaf
- Bydd y tyrbina yn un ysgogiad gyda jet a bwcedi sy'n cylchdroi, ac wedi'i adeiladu'n bennaf o blastig neu berspecs
- Yn gysylltiedig â generadur DC foltedd isel gyda llwyth addas (lamp neu rywbeth tebyg). Caniateir defnyddio generadur oddi ar y silff, neu gellir defnyddio motor o fath DC ar gyfer hyn.
- Bydd ganddo allanfa ar gyfer y dŵr sy'n llifo'n rhwydd sy'n addas er mwyn sicrhau y gellir casglu a mesur yr holl hylif.

Tîm 16

Coleg Meirion Dwyfor, Pwllheli 2
a **Dŵr Cymru**

Arddangosfa bwrdd o Dyrbin Dŵr a Generadur

Tîm: Kia Hughes
Alex Key
Lewis Thompson
Liam Watkin

Athro: Suzi Slaney

Cysylltiadau'r cwmni: Andrew Dixon a Huw Scourfield

Drwy osod tyrbinau ar argaeau a mewnfeydd gweithfeydd trin dŵr, mae Dŵr Cymru wedi cymryd camau breision yn ddiweddar drwy osod cynhyrchwyr dosbarthu lleol o fewn eu rhwydwaith cyflenwad dŵr. Rydym ni'n deall egwyddorion sylfaenol ynni mecanyddol ac allbwn creu trydan ers tro byd, ond prin fu'r modelau enghreifftiol addas.

Ewch ati, gan ddefnyddio egwyddorion sylfaenol, i ddylunio model bwrdd o dyrbin dŵr a generadur, sy'n addas i'w gysylltu â chyflenwad dŵr domestig. Mae'n rhaid iddo gael y nodweddion canlynol:

- Falf mewnfafa ar ffurf botwm y gellir ei bwysu sy'n ddibynnol ar amser
- Yn addas ar gyfer pwysau dŵr o 3 BarG, gyda llif o tua 5 litr y funud ar y mwyaf
- Bydd y tyrbina yn un ysgogiad gyda jet a bwcedi sy'n cylchdroi, ac wedi'i adeiladu'n bennaf o blastig neu berspecs
- Yn gysylltiedig â generadur DC foltedd isel gyda llwyth addas (lamp neu rywbeth tebyg). Caniateir defnyddio generadur oddi ar y silff, neu gellir defnyddio motor o fath DC ar gyfer hyn.
- Bydd ganddo allanfa ar gyfer y dŵr sy'n llifo'n rhwydd sy'n addas er mwyn sicrhau y gellir casglu a mesur yr holl hylif.

Tîm 17

Hyb Chweched Dosbarth Coleg
Meirion Dwyfor Pwllheli
a Mott MacDonald

Dull Effeithiol ac Effeithlon o Gymysgu Cemegion ar gyfer Proses Trin Dŵr

Tîm: Taliesin Griffith
Ella Harris
Celt Jones
Megan Haf Owen-
Jones
Huw Evan Watson
Heledd Williams

Athro: Rhodri Llwyd

Cysylltiadau'r cwmni: Prys Roberts, Laker Wong
a Prithula Roy Choudhury

Mae'r gwaith y mae MMB yn ymwneud ag ef yn amrywio o gontractau archwilio i gynlluniau sylweddol gwerth miliynau o bunnoedd ar weithfeydd trin dŵr pwysig. Mae'r busnes wedi bod yn rhan o Dŵr Cymru ers 5 mlynedd a hyd yma mae ei berfformiad wedi bod yn destun clod.

Er mwyn diogelu'r amgylchedd, mae yna safon ansawdd ofynnol y mae'n rhaid i'r elifion terfynol o safle trin dŵr gwastraff ei bodloni. Un agwedd ar y broses drin yw ychwanegu cemegion er mwyn hwyluso'r broses o dynnu solidau ohono.

Er mwyn sicrhau bod cemegyn yn cael ei ddefnyddio i'w lawn botensial, mae'n rhaid ei gymysgu'n effeithiol gyda'r llif drwy'r gwaith trin. Mae hyn nid yn unig yn sicrhau bod unrhyw solidau'n cael eu tynnu'n effeithiol o'r broses, ond mae'n sicrhau hefyd fod mesuriadau'r cemegion a ddefnyddir yn gywir er mwyn sicrhau bod y broses mor gost-effeithiol â phosibl.

Ewch ati i ddylunio dull effeithiol ac effeithlon o gymysgu a mesur hylif dosio gyda llif swmpus a all fod yn bresennol mewn gwaith trin. Mae'n rhaid sicrhau y gellir addasu mesuriadau'r cemegion sy'n cael eu hychwanegu at yr hylif ac y gellir defnyddio hylifau o amrywiol ludedd er mwyn ysgogi'r amrywiadau o ran llif a chyfansoddiad mewn gwaith trin.

Tîm 18

Ysgol Friars 1
a Coleg Llandrillo – Peirianeg Forol

Addasu Cwch Hwyllo Hyfforddi ar gyfer Morwyr Anabl

Tîm: Jacob Alexandrou
Cameron Dalton
Cai La Trobe-Roberts
Kateryn Reid
Max Rizzuto

Athro: Shaun Holdsworth

Cysylltiadau'r cwmni: Andy White

Sefydlwyd y prosiect SEAS (Supporting Enabling Accessible Sailing) sydd wedi ennill nifer o wobrau, yng Nghanolfan Conwy ar gychwyn 2018 ac mae'n rhoi cyfle i bobl anabl o bob cwr o'r gogledd fynd allan ar y dŵr, cymdeithasu, dysgu hwyllo ac yn bwysicach, cael hwyl. Mae SEAS wedi mynd â 120 a mwy o bobl anabl i hwyllo yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac mae llawer mwy yn awyddus i gymryd rhan.

Un o'r prif bethau sy'n rhwystro pobl anabl rhag cymryd rhan mewn chwaraeon yw diffyg cyfarpar sydd wedi'i addasu'n briodol. Rydym ni wedi derbyn rhodd o gelfad SARO Scimitar. Dyma fath o 'Gelfad' sy'n cael ei adeiladu'n lleol ac mae'r prif gilbren dur sydd wedi'i falastio'n helaeth â phlwm yn atal y cwch rhag troi drosodd.

Ewch ati i ddylunio system eistedd a llywio a fydd yn galluogi ein morwyr i fod mor annibynnol â phosibl. Bydd angen i'r system gefnogi morwr anabl pan fo'r cwch yn gwyro i'r ochr gan ganiatáu iddo lywio. Ychydig iawn o symudedd a chryfder corfforol sydd gan rai o'n morwyr, ond gall y rhan fwyaf ohonyn nhw symud eu breichiau.

Gan sicrhau bod yr ateb yn seiliedig ar fodel 1/2 graddfa o gefn y cwch/system llyw presennol, ewch ati i ddylunio ac addasu'r system lywio er mwyn creu prototeip gweithio.

Ynys Môn

Tîm 19

Ysgol Friars 2
a WSP UK

Canfod Atebion yn Ynni'r Llanw

Tîm: Arnav Agarwal
Meical Cook
Llew Davies
Tyler Green

Athro: Shaun Holdsworth

Cysylltiadau'r cwmni: Neil Garton-Jones ac Owen Duncan

Mae WSP yn un o gwmnïau mwyaf blaenllaw y byd yn y maes gwasanaethau proffesiynol. Rydym ni'n darparu arbenigedd technegol a chynghor strategol i gleientiaid yn y sectorau Trafnidiaeth a Seilwaith, Eiddo ac Adeiladau, yr Amgylchedd, Diwydiant, Adnoddau ac Ynni.

Ewch ati i ddatblygu adroddiad dewisiadau sy'n nodi ateb a ffeirir sy'n defnyddio ynni'r llanw oddi ar arfordir Cymru drwy arfarnu technoleg bresennol a dewisiadau amgen posibl a all gynnwys eich dyluniad eich hun er mwyn hyrwyddo'r posibilrwydd o dderbyn cyllid cyhoeddus gan Lywodraeth Cymru a'i gynnwys fel rhan o'u polisi ynni gwyrd ar gyfer y dyfodol.

Ewch ati i arfarnu morglawdd llanw sydd eisoes yn bodoli a dau eneradur llanw gan egluro'r ffactorau sy'n fanteisiol o ran cynhyrchu ynni'r llanw a'r ffactorau sy'n llai manteisiol o'u cymharu ag atebion ynni amgen. Dylech gymharu 3 neu 4 o'r systemau. Nodwch unrhyw gyfleoedd a fyddai'n galluogi Llywodraeth Cymru i hyrwyddo Cymru fel safle datblygu.

Ewch ati i gynhyrchu dadansoddiad matrices sy'n cymharu'r dewisiadau a ystyriwyd. Bydd angen adeiladu model gweithio ar raddfa er mwyn arddangos y cysyniad a ffeirir a'ch dulliau trawsyrru ynni neu ewch ati i ddatblygu delwedd 3D o ddewis sydd eisoes wedi'i arfarnu.

Tîm 20

Ysgol David Hughes
a Phrifysgol Bangor – Ysgol Gwyddorau
Meddygol

Pa mor ddiogel yw salad a llysiau mewn archfarchnadoedd sydd mewn bagiau ac wedi'u golchi ymlaen llaw?

Tîm: Jasmine Blight
Stephen Cowley
Carys Doran-Jones
Megan Elias
Emily Evans
Arwyn Foulkes
Samuel Hughes
Lowri Roberts

Athro: Geraint Llyn

Cysylltiadau'r cwmni: Gwyndaf Roberts, Helena Robinson
ac Alyson Moyes

Mae'r Ysgol Gwyddorau Meddygol yn ganolbwynt addysg ac ymchwil meddygol ym Mhrifysgol Bangor. Mae gan yr Ysgol Gwyddorau Meddygol gysylltiadau agos â'r labordai gwyddoniaeth biofeddygol lleol.

Mae cynnyrch a werthir mewn bagiau sydd wedi'i olchi ymlaen llaw yn ddewis poblogaidd i gogyddion amatur prysur. Ond mae'r ddelwedd o ddail salad ffres yn cael eu golchi mewn dŵr ffynnon pefriog yn bell iawn o realiti'r baddonau golchi diwydiannol sy'n cynnwys toddiant clorin, sy'n cael ei newid unwaith y dydd o bosibl. Ym mis Gorffennaf 2016, fe wnaeth achos o E. coli, y credir iddo fod yn gysylltiedig â salad wedi'i lygru, ladd dau o bobl a bu'n rhaid i 62 o bobl eraill dreulio cyfnod mewn ysbyty.

Gall E. coli sy'n gallu gwrthsefyll gwrthfotigau fynd i mewn i rwydwaith perfedd unigolion pan fo rhwydwaith y perfedd yn gwbl iach. Mae'r oeddrannus dueddol o gael haint y llwybr wrinol sy'n cael ei achosi gan rwydwaith eu perfedd eu hunain. Fel arfer mae triniaeth yn golygu gwrthfotig sbectrwm eang, ond un canlyniad yw bod y bacteria sy'n gwrthsefyll gwrthfotigau yn gallu cyrraedd rhannau pellach o'r llwybr perfeddol. Byddai unrhyw haint dilynol o'r llwybr wrinol yn debygol o gael ei achosi gan y bacteria sy'n gallu gwrthsefyll a byddai'n anoddach i'w drin. Gall methu â gwneud hynny arwain at sepsis sy'n peryglu bywyd. Ymchwilwch i raddau'r broblem hon gan ddefnyddio technegau microbiolegol.

Tîm 21

Ysgol Uwchradd Bodedern a Gwasanaethau Morol Caergybi

Rig Cynnal Profion ar gyfer Seddi Crog mewn Cychod

Tîm: Harvey Bentley
Cai Hughes
Elis Thomas
Keane Webster
Tomos Williams

Athro: Eurwyn Hughes

Cysylltiadau'r cwmni: Nick York a Daniel Firth

Mae dirgryniadau corff cyfan yn broblem i gychod bach cyflym. Gall wynebu oriau o ysgytiadau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r cychod hyn achosi anafiadau tymor hir i bersonél.

Mae seddi lleddfu ysgytiadau ar gael, fodd bynnag, o'r amrywiaeth eang o ddyluniadau sydd ar gael, mae'n anodd iawn penderfynu pa seddi yw'r mwyaf effeithiol ar gyfer lleihau ysgytiadau.

Mae angen rig cynnal profion arnom ni er mwyn cymharu i ba raddau y mae'r ysgytiadau'n gostwng gyda seddi o amrywiol ddyluniadau. Dyma'r seddi sydd o ddiddordeb arbennig:

- Shox 5900
- Ullman Biscaya (compact)
- Sedd Shark Jockey
- Seddi Scot SJ2

Dyma ofynion y rig:

- Dylid sicrhau bod y rig yn ddigon hyblyg i gynnal profion ar seddi eraill wrth iddyn nhw ddod ar gael
- Rydym ni'n bryderus yn unig am ysgytiadau ar lefel fertigol ac mewn trawiadau unigol
- Dylid sicrhau bod y rig yn rheoli a chydraddoli'r holl newidynnau ar wahân i'r sedd dan sylw
- Dylai'r rig fod â'r gallu i gynnal profion ar y seddi gan ddefnyddio lefelau gwahanol o ysgytiadau
- Dylid sicrhau bod y rig yn ddiogel i'w ddefnyddio a dylid ei ddylunio er mwyn sicrhau ei fod mor gost effeithiol â phosibl.

Tîm 22

Ysgol Uwchradd Caergybi 1 a BAE Systems/Babcock International

System adfer dŵr hunangynhaliol

Tîm: Sarah Goodsir
Casey Hughes
Samuel Jenkins
Anna Jones
Adam Vallely

Athro: Steffan Taylor a Chloe Taylor

Cysylltiadau'r cwmni: June Strydhorst, Gerallt Owen ac Adam Waterhouse

Mae'r awyrendy T1 ar safle RAF y Fali yn cael ei uwchraddio a bydd angen rhoi system ddŵr ar waith sy'n fwy ecogyfeillgar ac sy'n cyfrannu at wella'r amgylchedd.

Y dasg yw canfod ateb er mwyn gwella system ddŵr awyrendy T1 er mwyn sicrhau bod dŵr glaw yn cael ei ddefnyddio, gan felly ddefnyddio llai o ddŵr.

Ewch ati i ddarparu system ddŵr hunan-adfer sy'n ecogyfeillgar o do'r awyrendy a fydd yn darparu dŵr i'r wrinalau a'r toiledau. Unwaith y mae'r cyfrifiadau ar gyfer adfer dŵr yn hysbys ac mae'r defnydd dŵr wedi cael ei werthuso, os oes gormodedd o ddŵr, ystyriwch fyrdd eraill o'i ddefnyddio. Ar gyfer hyn, bydd gofyn cael pwmp hunangynhaliol i bwmpio'r dŵr. Un o'r gofynion dylunio yw y dylech ddarparu fersiwn model o'r system.

Dylai'r ateb ystyried dalgylchoedd dŵr glaw, rhagfynegiadau dŵr glaw a chyfeiriad ac oriau'r haul a dylech gynnwys graffiau o lefelau defnydd disgwylidiedig.

Tîm 23

Ysgol Uwchradd Caergybi 2 a BAE Systems

System adfer dŵr hunangynhaliol

Tîm: Courtney Turner

Athro: Steffan Taylor a Chloe Taylor

Cysylltiadau'r cwmni: June Strydhorst, Gerallt Owen ac Adam Waterhouse

Mae'r awyrendy T1 ar safle RAF y Fali yn cael ei uwchraddio a bydd angen rhoi system ddŵr ar waith sy'n fwy ecogyfeillgar ac sy'n cyfrannu at wella'r amgylchedd.

Y dasg yw canfod ateb er mwyn gwella system ddŵr awyrendy T1 er mwyn sicrhau bod dŵr glaw yn cael ei ddefnyddio, gan felly ddefnyddio llai o ddŵr.

Ewch ati i ddarparu system ddŵr hunan-adfer sy'n ecogyfeillgar o do'r awyrendy a fydd yn darparu dŵr i'r wrinalau a'r toiledau. Unwaith y mae'r cyfrifiadau ar gyfer adfer dŵr yn hysbys ac mae'r defnydd dŵr wedi cael ei werthuso, os oes gormodedd o ddŵr, ystyriwch fyrdd eraill o'i ddefnyddio. Ar gyfer hyn, bydd gofyn cael pwmp hunangynhaliol i bwmpio'r dŵr. Un o'r gofynion dylunio yw y dylech ddarparu fersiwn model o'r system.

Dylai'r ateb ystyried dalgylchoedd dŵr glaw, rhagfynegiadau dŵr glaw a chyfeiriad ac oriau'r haul a dylech gynnwys graffiau o lefelau defnydd disgwyledig.